

Herio corff newydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae angen taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod natur ac ymateb i newid hinsawdd, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones...

ROEDD y diwrnod agored ar fferm Hafod y Llan yn Eryri yn llwyddiant mawr.

Cafwyd cyfle i weld dau gynllun trydan hydro; un bach ar yr Afon Gosen sy'n cynhyrchu tua 80 MWawr a'r un yng Nghwm y Llan fydd yn cynhyrchu ugain gwaith yn fwy - sef 2 GWawr y flwyddyn.

Agorwyd cynllun tebyg ym Mhlas Tan y Bwlch, canolfan addysgiadol Parc Cenedlaethol Eryri. Ganrif yn ôl, pan oedd yn gartref i'r teulu Oakeley, berchnogion y chwarel enwog, roedd yr hen drefn o gynhyrchu trydan hydro yn eitha' cyffredin yn y Gymru fynyddig.

Nawr mae'r Parc wedi datblygu cynllun newydd, eto o fewn ardal o werth cadwriaethol arbennig iawn, i gynhyrchu tua 100,000 MWawr o drydan y flwyddyn.

Gwych iawn! Mwy fyth o dystiolaeth o'r potential Cymreig!

Eto o drafod gyda'r rhai sy'n ceisio hybu'r defnydd o dŵr llifeiriog Cymru i gynhyrchu trydan adnewyddol, di-garbon ac i greu gwaith ac elw yng nghefn gwlad, stori o fiwrocratiaeth affwysol a rhwystredigaeth a glywir.

Mae hanes Cwm y Llan yn ddadlennol. Ym mlaen y cwm bu cloddio am gopr yn yr hen oes ac mae sawl hen adfail yn tystio'n fud i ddygnwch ein cyndeidiau ond, sydd erbyn hyn, yn harddu ac yn rhoi cymeriad i'r tirlun.

DWR ASID YN FAINTAIS — AC YN BROBLEM

Ond ni fyddai'n bosib yn ein hoes ni dderbyn caniatâd cynllunio i'r fath waith, mwy na fuasai Pen y Gwryd, Castell Caernarfon a Portmeirion yn cael sêl bendith yr awdurdodau.

Mae'r hen waith copr wedi gwenwyno'r afon a'i wneud yn asid gan rwystro brithyll a physgod eraill. O ganlyniad mae'n haws sicrhau caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd i ddefnyddio canran o lif y dŵr i gynhyrchu trydan. Mae'r dŵr yn ail ymuno â'r afon ar ôl pasio trwy'r tyrbeini ac mae'n werth nodi hefyd bod y pyst i gario'r trydan i lawr Ddyffryn Gwynant bron yn anweledig.

Ond mae yna ffactor arall diddorol. Am fod y dŵr mor asid darganfuwyd bryoffit arbennig (sef planhigyn syml, tebyg i fwsogl) ger yr afon a bu'n rhaid lleihau maint y cynllun a sicrhau bod mwy o ddŵr yn rhedeg yn ddilyffethair er mwyn ei warchod.

Clywir am gynlluniau eraill sydd wedi'u rhwystro, eu cwtogi neu eu troi yn aneconomaidd o achos ystyriaethau gwarchodol [planhigyn neu anifail arbennig] neu bwysau o du'r pysgotwyr.

Da o beth ein bod yn garcus ond be ydi'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod diddordebau neilltuol ac ymateb i'r broblem fawr o newid hinsawdd a'i ganlyniadau?

Mae'n debygol y bydd rhan o'n bioamrywiaeth yn cael ei berygl, ac o bosib ei ddifa, gan newid hinsawdd. Felly faint o synnwyr sydd mewn gwarchod rhai pethau ar draul cynlluniau i gynhyrchu ynni carbon-isel os mai diflannu fydd eu hanes yn y pendraw?

A yw'n rhesymol gwarchod planhigyn sydd yn adlewyrchiad o lygredd hanesyddol? Sut mae blaenoriaethu?

Nid cwestiynau hawdd! Eto ni ellir, ac ni ddylid, eu hanwybyddu.

PRAWF AR 'GYFOETH NATURIOL CYMRU' A'N LLYWODRAETH

Hyd y deallaf mae llawer o'r cwynion yn deillio o dueddiad y drefn rheoli i weithio mewn 'blychau bach' digyswllt ac yn araf. Mae'n bosib nad damwain yw ein bod yn llawenhau mewn cynlluniau sylweddol wedi eu hyrwyddo gan yr Ymddiriedolaeth a'r Parc gydag arbenigedd a dylanwad? Da o beth iddynt arloesi!

Ond, os am gamu ymlaen rhaid creu cyfundrefn sydd, ar un llaw, yn pwysu a mesur gwahanol alwadau yn deg (yn osgoi rhoi 'feto' i griwiau bach a all fod yn unllygeidiog) ac, ar y llaw arall, sy'n hawdd i unigolion a chymunedau ddelio hefo fo. Onid newid hinsawdd yw problem fawr ein hoes?

Dyma brawf ar y corff newydd integreiddiedig 'Cyfoeth Naturiol Cymru' a'n Llywodraeth yn y Bae. Mae sôn cyson am 'Gymru Gynaliadwy'. Prin fod pwnc amgylcheddol pwysicach na newid hinsawdd a'n hymdrech i leihau ein hallyrion 80% erbyn canol y ganrif. Rhaid brysio i ddatblygu trefn ymarferol a chyfrifol i wneud yn fawr o un o adnoddau adnewyddol mwyaf Cymru.

[Mehafin 20, 2013]